# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Clive Lloyd | Adran Etholiadol: | St Thomas |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

*Mae'r adran hon yn cynnwys eich gweithgareddau ar ran eich etholwyr. Rhestrwch, neu gwnewch sylwadau ar weithgareddau megis nifer y cymorthfeydd rydych wedi'u cynnal a chefnogaeth arall rydych wedi'i rhoi i fentrau'r etholaeth. Os oes ymgyrchoedd mawr wedi bod ar waith, rhestrwch y rhain yn Adran 4.*

Unwaith yn rhagor, mae wedi bod yn anrhydedd ac yn fraint i gynrychioli'r cymunedau sy'n ffurfio ward etholiadol St Thomas. Dyma oedd blwyddyn olaf fy nghyfnod 5 mlynedd presennol, gydag etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017. Rwyf wedi derbyn cefnogaeth enfawr dros y 5 mlynedd diwethaf a hoffwn ddiolch i'm cydgynghorydd, Joe Hale, am ei help a'i gymorth. Rydym wedi gweithio'n dda iawn gyda'n gilydd i sicrhau ein bod yn cynrychioli pawb yr ydym yn ymdrin â nhw hyd eithaf ein gallu.

**<u>Cymorthfeydd ward</u>**

Ynghyd â'm cydweithiwr ward, y Cyng. Joe Hale, cynhaliwyd cymorthfeydd ward rheolaidd gennym ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis. Mae'r rhain ar sail rota yn y lleoliadau canlynol:

Neuadd Eglwys St Thomas, Neuadd Eglwys Bae Fabian, Neuadd Eglwys Illtyd Sant, Cenhadaeth Gwyn a Chanolfan Gymunedol Port Tennant.

Yn ogystal, rwyf yn mynychu digwyddiad Ail Gyfle Grŵp Cymunedol GSP ym Mhafiliwn Parc Jersey ar ddydd Mercher.

**<u>Cyfarfodydd preswylwyr</u>**

Cynhaliwyd llawer o gyfarfodydd preswylwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gennym mewn lleoliadau amrywiol, gan gynnwys Neuadd Eglwys St Thomas, Pafiliwn Parc Jersey a Chenhadaeth Bae Fabian. Cynhaliwyd nifer sylweddol o'r rhain er mwyn ymdrin â materion cynllunio lleol megis Canllawiau Cynllunio Atodol HMO a datblygiad y Cape Horner.
Gall pobl gysylltu â fi ar unrhyw adeg ac mae fy manylion cyswllt ar gael ar wefan Dinas a Sir Abertawe (www.abertawe.gov.uk/cynghorwyr).

**<u>Gwaith yn y ward</u>**

Rwyf wedi ymdrin â llawer o faterion dros y 12 mis diwethaf sydd wedi dod dan y prif gategorïau hyn: HMO, ceisiadau cynllunio, materion tai, tipio'n anghyfreithlon, tyllau yn y ffyrdd, materion parcio i breswylwyr/traffig, glanhau strydoedd, safleoedd bysys, gwneud ffyrdd yn fwy diogel a gweithio gyda chymunedau, diogelwch cymunedol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

**HMO – CCA** – Rwyf wedi sicrhau y cafodd barn y gymuned leol ei chynrychioli ac euthum i lawer o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio i wrthwynebu datblygu HMO pellach. Mae rhai o'r rhain wedi bod yn llwyddiannus o ran cael eu gwrthod, ond mae eraill wedi bod yn aflwyddiannus. Ysgrifennais gyflwyniadau cyhoeddus swyddogol ar ran y gymuned yn dilyn ymgynghoriadau cyhoeddus ar HMO – CCA a datblygiad y Cape Horner. Hefyd,

cynrychiolais y gymuned mewn Gwrandawiad yr Apêl Arolygiaeth Gynllunio ar ddatblygiad llety i fyfyrwyr yn SA1.
**Materion tai** – Rwyf wedi cynorthwyo nifer o unigolion gyda'u hymholiadau tai (tenantiaid y cyngor a chymdeithasau tai). Mae'r rhan fwyaf o'm hymholiadau tai'r cyngor wedi bod mewn perthynas ag adnewyddu ceginau ac ystafelloedd ymolchi. Rydym bellach wedi cytuno ar waith adnewyddu ferandâu yn Harbour View, Teras Gwynne, Cilgant St Leger a Heol Parc Grenfell.
**Tipio anghyfreithlon** – Rydym wedi cael nifer o faterion ar draws y ward, ond mae Stryd Grafog a Heol Cilfái'n enghreifftiau. Rwyf wedi cyflwyno Teledu Cylch Cyfyng ar Heol Cilfái fel dull rhwystro.
**Tyllau yn y ffordd** – Adroddais yn rheolaidd ar dyllau yn y ffordd, ond rwyf wedi gweithio gyda Thîm PATCH/Tyllau yn y Ffordd y cyngor i leddfu'r mater hwn. Cwblhawyd y rhan fwyaf ohonynt o fewn 48 awr. Cafwyd hefyd gynlluniau trwsio tyllau yn y ffordd yn Stryd Maesteg, Heol Danygraig a Heol Port Tennant.
**Materion parcio/traffig preswylwyr** – Yn dilyn ymweliadau gan breswylwyr, gwneuthum gais am nifer o gynlluniau parcio preswylwyr. Mae gennym gynlluniau parhaus ar Stryd yr Ysgol. Rwyf hefyd wedi cefnogi nifer o geisiadau am gilfachau parcio i'r anabl, e.e. Stryd Margaret, Stryd yr Ysgol a Stryd Tŷ Mawr.
**Glanhau strydoedd** – Cyfarfûm â swyddogion yn rheolaidd i drafod materion glanhau strydoedd. Enghraifft o hyn yw Heol Marcroft lle rydym wedi cael materion gyda glanhau strydoedd/thipio anghyfreithlon. Diolch hefyd i Steve, casglwr sbwriel y cyngor, sy'n gwneud gwaith penigamp.
**Gwneud Ffyrdd St Thomas yn fwy diogel** – Rwyf wrth fy modd i adrodd ein bod ni wedi sicrhau cyllid ar gyfer nifer o gynlluniau diogelwch ffyrdd wedi blynyddoedd o ymgyrchu, gan gynnwys croesfan Pelican newydd ar Heol Foxhole. Bydd mwy o lwybrau 20 mya o amgylch Ysgol Danygraig ac estyniad o fesurau arafu traffig ar hyd Heol Danygraig.
**Gweithio gyda chymunedau** – Rwyf wedi gweithio gyda nifer o grwpiau cymunedol i wella cyfleusterau yn y ward. Mae'r rhain yn cynnwys Cyfeillion Parc Polly, GSP/Pafiliwn Parc Jersey a Pharc Bowls Jersey/Cymdeithas Fowls Abertawe, Port Tennant Colts/Mile End, Canolfan Gymunedol Ashland, Canolfan Gymunedol Port Tennant.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr is-adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cabinet | 12 | / | 15 | 80.00 | % |
| Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Arfarnu'r Prif Weithredwr | 1 | / | 1 | 100.00 | % |
| Fforwm Cynghorau Tref / Cymuned | 2 | / | 2 | 100.00 | % |
| Y Cyngor | 14 | / | 16 | 87.50 | % |
| Panel Ariannu Allanol | 6 | / | 8 | 75.00 | % |
| Pwyllgor Cronfa Bensiwn | 5 | / | 6 | 83.33 | % |
| Pwyllgor Safonau | 4 | / | 4 | 100.00 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 1 | / | 1 | 100.00 | % |
| **Cyffredinol** | **45** | **/** | **53** | **84.91** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Yn ogystal â bod yn Gynghorydd Ward lleol ar gyfer St Thomas, bûm, ac rwyf o hyd, yn Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad i Gyngor Dinas a Sir Abertawe, gyda chyfrifoldeb arweiniol dros Drawsnewid Gwasanaethau'r Cyngor – Abertawe Gynaliadwy/Yn Addas i'r Dyfodol, Cyfathrebu a Chynnwys, Gwasanaethau Cyfreithiol a

Democrataidd (Cynghorydd), Gwasanaethau Cyllid y Cyngor, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Cyswllt Cwsmeriaid a Boddhad Cwsmeriaid, Craffu'r Cyngor, Risg a Chydnerthu Dinas a Sir Abertawe,
Hyfforddiant a Datblygiad ar gyfer Cynghorwyr, Polisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor, Comisiynu Gwasanaethau'r Cyngor, Deall Galw am Wasanaethau'r Cyngor a Rheoli Proses Gyllideb y Cyngor.

Rwyf hefyd yn cynrychioli'r cyngor fel aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac rwyf yn Is-gadeirydd Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus.

Ym mis Tachwedd 2016, cynrychiolais y cyngor yng nghynhadledd Dinas Dysg UNESCO yn Hangzhou, Tsieina lle roedd Abertawe'n un o 12 dinas yn unig yn y byd a gafodd gydnabyddiaeth fel Dinas Dysgu Gydol Oes ardderchog.

## Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

## Adran 5: Dysgu a datblygu

*Mae'r adran hon yn cynnwys yr wybodaeth neu'r sgiliau arbennig rydych yn eu cyfrannu i'ch rôl fel cynghorydd. Er enghraifft, efallai'ch bod yn gynlluniwr arbenigol neu efallai bod gennych brofiad penodol o un agwedd ar weithgareddau'r cyngor. Nodwch a oes unrhyw beth arbennig rydych yn ei gyfrannu i'r rôl neu a oes unrhyw hyfforddiant arbennig rydych wedi'i gael sy'n eich helpu yn eich rôl.*

19/05/2017 - Gwneud penderfyniadau da, Tuedd, Penderfynu Ymlaen Llaw a Rheolau Cyfiawnder Naturiol
16/05/2017 - Cyllid Llywodraeth Leol
22/02/2017 - Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
07/07/2016 - Deddf Cynllunio Cymru - Gweithdrefnau Rheoli Datblygu

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

*Mae'r adran hon er mwyn i chi nodi unrhyw beth arall rydych yn meddwl y dylai'ch etholwyr fod yn ymwybodol ohono.*

Rwyf hefyd yn rhan o'r grwpiau cymunedol canlynol:

Ysgolion – Cadeirydd y llywodraethwyr yn Ysgol Danygraig a llywodraethwr yn Ysgol St Thomas.
Cymunedau'n Gyntaf Port Tennant – Rwyf yn mynd i gyfarfodydd y grŵp rheoli'n rheolaidd.
Grŵp Preswylwyr Tir John – Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd â rheolwyr y safle.
Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe – Cynhaliwyd cyfarfodydd i drafod materion yn y dociau/porthladd.
Cyfeillion Parc Polly

Ym mis Mai 2017, bûm yn ffodus i gael fy ailethol fel cynrychiolydd ward St Thomas. Hoffwn ddiolch i bawb a bleidleisiodd drosta i, gan roi pleidlais o hyder i mi. Edrychaf ymlaen at gynrychioli preswylwyr lleol am 5 mlynedd arall. Fe'm hetholwyd hefyd yn Ddirprwy Arweinydd Cyngor Abertawe.

## Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr

Cyflog Uwch: £32,000

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

| |
|---|
| Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:<br>http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0<br>Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:<br>http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0 |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | |